OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 3378

## Rheoliadau Ychwanegion Bwyd (Cymru) 2009

**Tramgwyddau a chosbau**

**14.**—(1) Mae person sy'n torri neu'n peidio â chydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth o reoliad 3, 4, 5, 6, 8, 9, 11 neu 12 yn euog o dramgwydd ac yn agored, ar gollfarn ddiannod, i ddirwy na fydd yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol.

(2) Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau trosiannol yn Erthygl 34 o Reoliad 1333/2008, mae person sy'n torri neu'n peidio â chydymffurfio ag—

(a) unrhyw ddarpariaeth benodedig o Reoliad 1333/2008;

(b) cyn 1 Ionawr 2011, Erthygl 4.2 (fel y'i darllenir ynghyd ag Erthyglau 12, 13.2, 18.3 a 35) o Reoliad 1333/2008 (gofyniad i ddefnyddio, mewn ychwanegion bwyd, ensymau bwyd neu gyflasynnau bwyd, yr ychwanegion bwyd hynny yn unig a gynhwysir yn Rhan 1 neu 4 o Atodiad III i'r Rheoliad hwnnw ac i'w defnyddio yn unol ag unrhyw amodau a bennir yn yr Atodiad hwnnw);

(c) ar neu ar ôl 1 Ionawr 2011, Erthygl 4.2 (fel y'i darllenir ynghyd ag Erthyglau 12, 13.2, 18.3 a 35) o Reoliad 1333/2008 (gofyniad i ddefnyddio, mewn ychwanegion bwyd, ensymau bwyd neu gyflasynnau bwyd, yr ychwanegion bwyd hynny yn unig a gynhwysir yn Atodiad III i'r Rheoliad hwnnw ac i'w defnyddio yn unol ag unrhyw amodau a bennir yn yr Atodiad hwnnw);

(ch) ar neu ar ôl 20 Ionawr 2011, Erthygl 23.4 o Reoliad 1333/2008 (gofyniad bod gweithgynhyrchwyr melysyddion pen-bwrdd yn rhoi ar gael, mewn ffyrdd priodol, yr wybodaeth angenrheidiol i ganiatáu i'r defnyddwyr eu defnyddio'n ddiogel); neu

(d) ar neu ar ôl 20 Gorffennaf 2010, Erthygl 24.1 (fel y'i darllenir ynghyd ag Erthygl 24.2 a'r trydydd paragraff o Erthygl 31) o Reoliad 1333/2008 (gofyniad bod y labeli ar fwyd sy'n cynnwys y lliwiau bwyd a restrir yn Atodiad V i'r Rheoliad hwnnw yn cynnwys yr wybodaeth ychwanegol a bennir yn yr Atodiad hwnnw),

yn euog o dramgwydd ac yn agored, ar gollfarn ddiannod, i ddirwy na fydd yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol.